Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adroddiad thematig Estyn o Cymwysterau Newydd - Manylebau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a chymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau

ISBN digidol 978-1-78903-602-2
© Hawlfraint y Goron 2018
WG30290

**Teitl yr adroddiad:**
Cymwysterau Newydd - Manylebau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a chymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau.

**Manylion yr adroddiad:**
Comisiynwyd yr adroddiad fel rhan o lythyr cylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2017-18. Mae'n rhoi trosolwg cenedlaethol o sut mae ysgolion a cholegau yn cynllunio a gweithredu eu cwricwlwm yn dilyn cyflwyno'r TGAU newydd yn Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a'r cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru.

Mae'n ystyried safon addysgu ac asesu, cynllunio cwricwlwm, datblygu staff ac arweinyddiaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys arferion y dylai ysgolion a cholegau eraill eu hystyried.

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:**
1. Yn Gymraeg a Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau llefaredd cryf. Fodd bynnag, mae rhai'n amharod i gyfrannu ac felly nid ydynt yn datblygu eu medrau llefaredd yn briodol.

2. Ysgrifennu yw'r medr lleiaf datblygedig yn y ddwy iaith.

3. Ym Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd:

- mae gan *lawer* ddealltwriaeth dda o gysyniadau sylfaenol;
- mae gan *y mwyafrif* afael cadarn ar algebra ac maent yn hyderus wrth ddewis dulliau priodol i ddatrys problemau.
- mae yna *leiafrif* nad oes ganddynt ddealltwriaeth gymwys o'r cysyniadau hyn ac maent yn cael anhawster wrth geisio datrys problemau.
- mae yna *ychydig* o ddisgyblion nad ydynt yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol cadarn.

4. Bu i lawer llai o ddisgyblion gael y graddau uchaf oll ym Magloriaeth Cymru (Lefel Genedlaethol) nag yn Gymraeg, Saesneg neu fathemateg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd na TGCh yn ddigon da mewn gwersi Bagloriaeth Cymru.

5. Mae'r mwyafrif yn teimlo'u bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu harholiadau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gadarnhaol am y cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar y cyfan, ond mae yna leiafrif sy'n negyddol. Yn gyffredinol, mae agweddau disgyblion yn adlewyrchu'r statws y mae'r ysgol dan sylw, ac yn enwedig arweinwyr yr ysgol, yn ei roi i'r cwrs.

6. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi ail-ddylunio'u cynlluniau gwaith gan wneud addasiadau priodol i'w haddysgu i ymateb i'r manylebau newydd. Fodd bynnag, ni fu digon o gynllunio i ymestyn disgyblion mwy abl, yn arbennig ym Magloriaeth Cymru. Mae addysgu'n effeithiol mewn llawer o wersi TGAU ac yn y mwyafrif o wersi Bagloriaeth Cymru.

7. Yn y mwyafrif o ysgolion, dewisir athrawon i addysgu Bagloriaeth Cymru yn

seiliedig, yn bennaf, ar eu hargaeledd o ran yr amserlen, ac mae gormod o amrywiaeth o ran brwdfrydedd ac arbenigedd ymysg yr athrawon sy'n addysgu'r cwrs. Mae safon yr arweinyddiaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru hefyd yn amrywio gormod.

8. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr uwch wedi rhoi cefnogaeth gref i adrannau wrth baratoi ar gyfer y cyrsiau newydd. Mae llawer o arweinwyr uwch wedi cynyddu'r amser i'r pynciau hyn yn y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm wedi'i gyfyngu mewn llawer o ysgolion. Er enghraifft, mae cyfran y disgyblion sy'n gwneud TGAU Cymraeg Llenyddiaeth neu Saesneg Llenyddiaeth, ynghyd â phynciau eraill, wedi lleihau'n sylweddol ers 2012.

9. Mae llawer o ysgolion yn cofrestru disgyblion i wneud eu harholiadau'n gynnar. Mae hyn yn ddrud, yn tarfu ar drefn arferol ysgolion, ac yn aml yn arwain at ddisgyblion yn sefyll arholiadau nad ydynt wedi'u paratoi'n llawn ar eu cyfer.

10. Mae safon y cymorth i ysgolion gan y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a CBAC wedi bod yn amrywiol iawn.

**Colegau Addysg Bellach**

11. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ategu eu dysgu o'r ysgol yn dda ac mae llawer yn gwneud cynnydd addas wrth baratoi ar gyfer ailsefyll arholiadau TGAU Saesneg a Mathemateg. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi data am ganlyniadau'r arholiadau hyn.

12. Yn gyffredinol, mae colegau wedi cynllunio'n dda er mwyn i ddysgwyr gael astudio cyrsiau TGAU, a'u hailsefyll. Mae nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru i wneud TGAU Saesneg a Mathemateg wedi cynyddu'n sylweddol, fodd bynnag nid yw hyn yn wir am raglenni TGAU Cymraeg.

13. Dim ond lleiafrif o ddysgwyr fyddai'n gwneud Bagloriaeth Cymru o ddewis.

14. Mewn rhai gwersi, nid yw'r athrawon yn addasu eu haddysgu'n ddigonol i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr. Yn gyffredinol, nid yw colegau'n cael digon o wybodaeth gan ysgolion am gyrhaeddiad blaenorol disgyblion.

15. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn derbyn hyfforddiant priodol ac yn deall gofynion y fanyleb newydd yn dda. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif sydd â mynediad i rwydweithiau arfer da gyda cholegau neu ysgolion eraill.

16. Mae arweinwyr uwch yn ymrwymedig i sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad i TGAU Saesneg Iaith a Mathemateg, a chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae buddsoddi priodol wedi digwydd o ran recriwtio staff newydd a hyfforddi staff cyfredol i gyflwyno'r cymwysterau newydd.

17. Mae gan y rhan fwyaf o golegau weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai achosion lle nad yw hunanarfarnu yn darparu darlun cywir o safon yr addysgu na'r dysgu, yn enwedig mewn dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru.

| |
|---|
| **Argymhelliad 1**<br><br>**Dylai ysgolion a cholegau:**<br>**Herio’r ystod gallu llawn a darparu tasgau ysgogol sy’n datblygu gwydnwch dysgwyr**<br>Rydym yn diwygio'r cwricwlwm fel y nodir yn 'Cenhadaeth ein Cenedl'. Bydd y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar Gamau Cynnydd, gyda disgwyliadau a fydd yn herio plant a phobl ifanc i fod yn uchelgeisiol ac i gyflawni'n dda. Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodi bod addysgu a dysgu yn rhoi her i’r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu’n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy’n uchel ond o fewn eu cyrraedd.<br><br>Mae'r cwricwlwm newydd hefyd yn rhoi pwyslais ar ddatblygu gwytnwch y dysgwyr. Cyfeirir yn benodol at hyn ym Mhedwar Diben y Cwricwlwm Newydd, a fydd yn sail i'r holl addysgu a dysgu yng Nghymru.<br><br>Rydym hefyd wedi caffael rhaglen gymorth ar gyfer sefydliadau addysg bellach er mwyn iddynt gael gwella eu cefnogaeth i ddysgwyr mwy abl a thalentog, yn dilyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru yn 2017. Mae'r cymorth yn cynnwys hyfforddiant i staff colegau, a datblygu meini prawf i helpu colegau bennu dysgwyr mwy abl a thalentog. Mae ein canllawiau'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu gwytnwch a sgiliau astudio annibynnol. |
| **Argymhelliad 2**<br><br>**Dylai ysgolion a cholegau:**<br>**Sicrhau bod dysgwyr yn gwella eu hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg**<br>Cenhadaeth ein Cenedl yw codi safonau, lleihau’r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy’n destun hyder a balchder cenedlaethol. Mae sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu sgiliau llythrennedd rhagorol, gan gynnwys ysgrifennu, yn rhan allweddol o'r genhadaeth hon.<br><br>Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddom ein 'Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol - Cynllun Gweithredu Strategol'. Mae'n rhoi gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol llythrennedd a rhifedd ac yn sôn am ein gwaith hyd yma ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol gan sicrhau bod cymorth sylweddol ar gael at y dyfodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a hynny ar draws y cwricwlwm. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cynnig continwwm datblygiad, gan nodi'n glir y deilliannau blynyddol a ddisgwylir ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Mae ysgrifennu'n llinyn yng nghydran Llythrennedd y Fframwaith. Mai iddo statws cyfartal â llefaredd a darllen.<br><br>Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi bod yn ofynnol yn statudol er mis Medi 2013. Yn 2015, gwnaethom newidiadau i gynnwys a diwyg Meysydd Dysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemateg a rhaglenni astudio yn Gymraeg, Saesneg a Mathemateg. Y nod oedd cryfhau addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd yn y meysydd hyn a'u halinio â'r agweddau sydd i'w gweld yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i greu continwwm dysgu o'r Cyfnod Sylfaen trwyddo i Gyfnod Allweddol 4 a chymwysterau. |

| |
|---|
| Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n llawn i weithredu'r Fframwaith. Ers mis Medi 2015, mae consortia rhanbarthol, sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i'r Fframwaith. Mae pob Consortiwm yn penderfynu sut orau i gefnogi ysgolion yn eu hardal i roi'r Fframwaith ar waith. Parhawn i weithio'n agos â'n partneriaid yn y Consortia addysg rhanbarthol i sicrhau bod ysgolion yn cael cefnogaeth lawn.<br><br>Un o'r Pedwar Diben yn y Cwricwlwm newydd yw y bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog  a all gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm newydd yn rhoi statws cydradd i lefaredd, darllen ac ysgrifennu. Bydd gofyn i bob ysgol sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill. |
| **Argymhelliad 3**<br><br>**Dylai ysgolion a cholegau:**<br>**Cael disgwyliadau uchel fod pob dysgwr yn cyfrannu’n llafar, yn enwedig yn Gymraeg**<br>Os ydym am gyflawni'n huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae angen inni sicrhau bod ein dysgwyr yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd bywyd bob dydd. Mae cyfleoedd i gyfrannu ar lafar yn hanfodol, felly, i sicrhau bod dysgwyr yn ymarfer siarad, a'u bod yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd.<br><br>Un o Bedwar Diben ein Cwricwlwm yw y bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog a all gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg.  Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn hwyluso datblygiad gwybodaeth, sgiliau ac ymagweddau dysgwyr ym maes llefaredd, ysgrifennu, darllen a llenyddiaeth, o fewn ac ar draws ieithoedd. Bydd cyd-destunau ystyrlon yn ysgogi dysgwyr i gaffael sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a'u rhoi ar waith, bydd hefyd yn ysgogi dysgwyr i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu a defnyddio ieithoedd.<br><br>Mae llythrennedd hefyd yn hanfodol i gynnydd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, gan gynnwys Mathemateg a Rhifedd. Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd yn pwysleisio'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn perthynas â llythrennedd mewn mathemateg, a defnyddio sgiliau iaith priodol, er enghraifft, wrth esbonio cysyniadau a rhannu syniadau gydag athrawon  a dysgwyr eraill. |
| **Argymhelliad 4**<br><br>**Dylai ysgolion a cholegau:**<br>**Gwella medrau datrys problemau disgyblion mewn mathemateg ac mewn mathemateg-rhifedd**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cyflawni eu potensial yn llawn mewn addysg, beth bynnag eu cefndir |

| |
|---|
| neu amgylchiadau personol. Ein gweledigaeth yw bod ein holl blant a phobl ifanc yn mwynhau addysgu a dysgu sy’n eu hysbrydoli i lwyddo, mewn amgylchedd dysgu cynhwysol sy’n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol.<br><br>Mae ein hymrwymiad i godi safonau yn addysgu a dysgu mathemateg yn cael ei chyflwyno trwy ein Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Mathemateg (NNEM). Mae'r NNEM yn cynnwys prifysgolion, ysgolion a phartneriaid rhanbarthol – oll yn gweithio i wella dysgu ac addysgu mathemateg a rhifedd mewn lleoliadau addysg a cholegau ledled Cymru, yn bennaf trwy gefnogi ymarferwyr i ddatblygu arferion ystafell ddosbarth gwell<br><br>Disgwyliwn i sgiliau rhifedd fod yn flaenoriaeth ac iddynt gael eu datblygu'n unol â hynny. I sicrhau continwwm datblygiad, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 a chymwysterau, mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'i ymestyn i gynnwys Cyfnod Allweddol 4.  Mae'r Fframwaith estynedig hwn, er nad yw'n statudol mewn pynciau eraill, yn parhau i fod yn statudol o ran rhaglenni astudio Saesneg, Cymraeg (iaith gyntaf) a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4.<br><br>Bydd y Cwricwlwm Newydd yn cynnwys cytbwysedd priodol o wybodaeth a sgiliau. Mae Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd wedi cynnal ymchwil trylwyr ac ar hyn o bryd mae'n ystyried defnyddio hyfedreddau, tebyg i'r rhai sydd yng nghwricwlwm Awstralia, sy'n cynnwys rhuglder, dealltwriaeth a datrys problemau. |
| **Argymhelliad 5**<br><br>**Dylai ysgolion a cholegau:**<br>**Datblygu medrau darllen lefel uwch disgyblion mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg a Bagloriaeth Cymru.**<br>Mae gwaith yr MDPh wedi rhoi pwys ar sgiliau darllen uwch. Mae'r fframwaith dilyniant sy'n cael ei lunio gan y grŵp yn rhoi pwyslais ar ddysgu i bennu sut mae testunau'n wahanol pan gânt eu creu ar gyfer gwahanol gyfryngau a gwahanol gynulleidfaoedd. Rhoddir pwyslais hefyd ar ddisgyblion yn dechrau ystyried, fwyfwy, yr effaith y bwriedir ei chael. Drwy wneud cysylltiadau, gofyn cwestiynau, mynegi barn a thrafod priodoldeb iaith, daw sgiliau darllen i fod yn fwyfwy dadansoddol wrth i ddysgwyr ddilyn y fframwaith dilyniant.<br><br>Ym mis Mawrth 2016, fe gyhoeddom ein Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cynllun yn rhoi gweledigaeth glir o'n strategaeth llythrennedd a rhifedd at y dyfodol ac mae'n sicrhau bod cymorth parhaus sylweddol o ran llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.<br><br>Mae'r Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd yn dod ag ystod o bolisïau allweddol ynghyd, gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Profion Darllen a Rhifedd, gan arwain at newidiadau sydd â'r nod o sicrhau gwelliannau parhaus a hirdymor.<br><br>Datblygwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer pob dysgwr 3 i 16 oed i gefnogi addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd o safon uchel ar draws y cwricwlwm er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad. |

| |
|---|
| Mae darllen yn rhan o gydran 'llythrennedd' y Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd, ac mae iddo statws cydradd â llefaredd ac ysgrifennu o fewn y Fframwaith.<br><br>Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn rhoi fframwaith strwythuredig a chlir i athrawon gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd yn eu gwersi, a hynny'n gyson ac ar lefel briodol.<br><br>Gwnaethom y Maes Dysgu a Phrofiad Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu a'r Rhaglenni Astudio ar gyfer Saesneg yn statudol o fis Medi 2015. Mae'r diwygiadau'n cryfhau dysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r rhaglenni astudio drwy eu hategu a'u halinio ag ymagwedd y Fframwaith llythrennedd a Rhifedd i greu continwwm dysgu. |
| **Argymhelliad 6**<br><br>**Dylai ysgolion a cholegau:**<br>**Gwella perfformiad bechgyn mewn Cymraeg, Saesneg a Bagloriaeth Cymru**<br>Mae cymorth parhaus sylweddol ar gyfer llythrennedd ar draws y cwricwlwm i wella sgiliau dysgwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chydlynwyr Llythrennedd Consortia Addysg Rhanbarthol, Cydlynwyr Bagloriaeth Cymru, a phob partner perthnasol yn y consortia addysg rhanbarthol i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu pennu, ac ysgolion yn cael eu cefnogi'n llawn. |
| **Argymhelliad 7**<br><br>**Dylai ysgolion a cholegau:**<br>**Helpu mwy o ddisgyblion ennill y graddau uchaf ym Magloriaeth Cymru**<br>Mae Bagloriaeth Cymru'n chwarae rhan allweddol yng nghenhadaeth ein cenedl i godi safonau, drwy wella sgiliau a gwybodaeth pobl ifanc. Mae wedi'i chynllunio i roi profiad ehangach i bobl ifanc nag y maent yn ei gael fel arfer drwy addysg academaidd draddodiadol.<br>Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chydlynwyr Bagloriaeth Cymru ym mhob rhanbarth i bennu mecanweithiau cymorth posibl i gefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial. |
| **Argymhelliad 8**<br><br>**Dylai ysgolion a cholegau:**<br>**Darparu cyfleoedd gwell i ddisgyblion ddatblygu'u medrau rhifedd a TGCh ym Magloriaeth Cymru**<br>Mae'r pwyslais ym Magloriaeth Cymru ar ddysgu cymhwysol hy. caffael sgiliau trosglwyddadwy a'u defnyddio - dysgwyr yn datblygu sgiliau yng nghyd-destun tasgau llawn pwrpas gyda gwybodaeth a dealltwriaeth briodol.<br>Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chydlynwyr Bagloriaeth Cymru a phartneriaid yn y Consortia Addysg Rhanbarthol i sicrhau y caiff cyfleoedd eu pennu ac y caiff ysgolion eu cefnogi'n llawn. |

**Argymhelliad 9**

**Dylai ysgolion a cholegau:**
**Ystyried yn ofalus eu staffio a'u hamserlennu ar gyfer Bagloriaeth Cymru a'r statws maent yn ei roi i'r cymhwyster**
Mae CBAC yn amlinellu isafswm oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i benaethiaid ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu ar y rhaglen ddysgu briodol ar gyfer eu dysgwyr.

Disgwyliwn i bob person ifanc wneud Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 yn unol ag argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau.

**Argymhelliad 10**

**Dylai ysgolion a cholegau:**
**Darparu hyfforddiant i arweinwyr canol i'w helpu i arfarnu safonau ac addysgu yn eu hadrannau**
Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos â'r Consortia Rhanbarthol i ddatblygu a sefydlu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr yng Nghymru, gan gynnwys gwaith sydd wedi'i ddechrau i edrych ar ddatblygu arweinwyr canol.

Ers mis Gorffennaf 2016, mae'r pedwar rhanbarth wedi bod yn cydweithio mwy i ddatblygu cynigion dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgolion. Ym mis Gorffennaf 2016, dechreuwyd ar y gwaith hwn gan greu cynnig diwygiedig ar gyfer darpar benaethiaid. Cyflymwyd y gwaith ar y cyd gan sefydlu'r Bwrdd Cysgodol ar gyfer yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, ac mae'r rhanbarthau wedi ymateb yn yr un modd drwy gytuno i sicrhau mwy o gydweithio ar ymagwedd gam-wrth-gam.

Cytunwyd y byddent:

- yn datblygu a chyflawni darpariaeth ar y cyd ar gyfer darpar benaethiaid, penaethiaid newydd a phenaethiaid profiadol ar draws y 4 rhanbarth, a hynny gam wrth gam.
- yn caffael neu'n datblygu adnoddau a dogfennau i gefnogi'r nod.
- caiff arweinwyr ledled Cymru fynediad i nifer cynyddol o gyfleoedd dysgu proffesiynol cyffredin o safon, a hynny heb ystyried lleoliad.
- Yn sicrhau twf o arweinwyr medrus ledled Cymru gan arwain at leihau nifer y swyddi gwag i arweinwyr.

Hyd yn hyn maent wedi bod yn gweithio ar y meysydd canlynol:

- Sicrhau darpariaeth gyffredin ar draws rhanbarthau'r pedwar consortia
- Mynediad at hyfforddiant arweinyddiaeth ym mha bynnag leoliad daearyddol
- Pob darpariaeth hyfforddiant i fod ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg
- Hyfforddiant i gael ei alinio gyda'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth

newydd

- Hyfforddiant i gael ei alinio â meini prawf ardystio'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- Adnodd gwerthuso 360
- Rhaglen gyflawni gam wrth gam
- Strategaeth gyfathrebu ar gyfer Rhaglenni Arweinyddiaeth.

Bydd y rhanbarthau'n cyflwyno'r rhaglenni newydd hyn i'r Academi Genedlaethol i'w hardystio pan fo hynny'n briodol a phan fo galw am eu hardystio.

Mae'r rhanbarthau hefyd wedi bod yn gweithio gyda Sefydliadau Addysg Bellach i gefnogi'r datblygiadau hyn.

Bydd y rhaglenni newydd hyn yn cefnogi gwella'r safonau yng Nghymru.

**Argymhelliad 11**

**Dylai ysgolion a cholegau:**
**Gweithio gyda'i gilydd yn well i sicrhau bod ganddynt drefniadau cyfreithiol, diogel a chynhwysfawr ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyraeddiadau blaenorol disgyblion ac i ddatblygu rhwydweithiau o arfer broffesiynol**
Mae grymoedd eisoes yn weithredol i hwyluso rhannu gwybodaeth disgyblion. Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011 yn ymdrin â rhannu data lefel disgyblion. Yn rheoliad 5, *Dyletswyddau pennaeth - cofnodion addysgol,* nodir o dan adran (3): *Ym mhob achos lle mae'r disgybl dan ystyriaeth i'w dderbyn i ysgol arall (gan gynnwys ysgol annibynnol) neu i sefydliad addysg bellach neu unrhyw le arall ar gyfer addysg neu hyfforddiant, rhaid i'r pennaeth drosglwyddo cofnod addysgol y disgybl i'r person cyfrifol, yn rhad ac am ddim*. Mae cyfrifoldeb clir mewn rheoliadau i benaethiaid drosglwyddo cofnod disgybl ar gais o fewn 15 diwrnod.

Mae swyddogion wedi drafftio canllawiau i ysgolion a cholegau i godi ymwybyddiaeth o'r gofyniadau cyfreithiol o ran rhannu data, caiff y rhain eu cyhoeddi'n fuan. Rydym yn ystyried dichonoldeb rhagor o waith i gryfhau rhannu data. Byddwn yn cyflwyno cyngor i Weinidogion ar hyn yn y man.

Mae Cenhadaeth ein Cenedl hefyd yn nodi hyrwyddo gweithio ysgol-i-ysgol, gan gynnwys ffedereiddio, clystyru a chymunedau dysgu proffesiynol fel cam allweddol.

**Argymhelliad Ychwanegol 12**

**Dylai ysgolion ystyried ehangder eu cwricwlwm, gan gynnwys cyfleoedd ac anogaeth i astudio Saesneg Llenyddiaeth a Chymraeg Llenyddiaeth**
Y prif ffactor mewn unrhyw benderfyniad ynghylch pa gymwysterau y dewisir eu cyflawni yw buddiannau'r dysgwr.

Yn ein cynigion, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar gyfer trefniadau mesur perfformiad ar gyfer 2019 ymlaen yng Nghyfnod Allweddol 4, byddwn yn rhoi gwybodaeth i ysgolion a fydd yn dangos eu perfformiad yn iaith a llenyddiaeth. Mae cydnabod TGAU llenyddiaeth yn y mesurau craidd yn cydnabod ac yn cadarnhau pwysigrwydd llenyddiaeth, yn y ddwy iaith, i'n treftadaeth ddiwylliannol.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm newydd yn cynnwys dilyniant ym maes llenyddiaeth ar gyfer pob dysgwr 3-16 oed yng Nghymru.

**Argymhelliad Ychwanegol 13**

**Dylai colegau gynyddu nifer y dysgwyr sy'n ailsefyll TGAU Cymraeg iaith**

Mae rhai colegau'n cynnig y cyfle i ddysgwyr ailsefyll eu TGAU Cymraeg Iaith. Felly, fel rhan o'u cynllunio darpariaeth, byddwn yn annog y colegau eraill i roi'r un cyfle i'w dysgwyr nhw. Efallai y bydd angen i golegau gydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn gallu gwneud hyn.

**Manylion cyhoeddi**

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar wefan Estyn ddydd Mawrth 17 Gorffennaf.